**Ken Skates AS/MS**
**Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Minister for Economy, Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

21 Ebrill 2021

Annwyl Scott

**Llythyr Cylch Gwaith Interim ar gyfer Trafnidiaeth Cymru 2021/22**

Mae'r Llythyr Cylch Gwaith hwn yn nodi cylch gwaith gweithredol interim Trafnidiaeth Cymru ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2022 (y "Cyfnod"). Dylid nodi, yn dilyn etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021, y bydd angen adolygu a chadarnhau'r llythyr hwn yng ngoleuni gweinyddiaeth newydd a'i blaenoriaethau ar gyfer Trafnidiaeth Cymru.

Hoffwn ddiolch i chi a'r Bwrdd am eich arweinyddiaeth, ac i staff Trafnidiaeth Cymru am eu hagwedd broffesiynol a'r ymrwymiad a ddangoswyd gennych chi a chanddynt hwy wrth gyflawni eich amcanion y llynedd ac yn ystod yr argyfwng COVID-19 parhaus.

Fel cwmni cofrestredig o dan Ddeddf Cwmnïau 2016, mae gan Trafnidiaeth Cymru hunaniaeth gyfreithiol glir o fewn fframwaith cadarn sydd wedi'i hen sefydlu, sy'n ei galluogi i wneud penderfyniadau gweithredol. Fodd bynnag, mae swyddogaethau gweithrediaeth yn aros gyda Gweinidogion Cymru, a rhaid i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau gweinyddol gan Trafnidiaeth Cymru i Lywodraeth Cymru i gefnogi arfer swyddogaethau statudol perthnasol gan Weinidogion Cymru fod yn unol â'r cylch gwaith hwn a'r holl rwymedigaethau cyfreithiol perthnasol. Fel is-gwmni dan berchenogaeth lwyr Gweinidogion Cymru, mae Trafnidiaeth Cymru yn rhan annatod o'r sector cyhoeddus yng Nghymru a rhaid iddi weithredu er budd y cyhoedd.

**Amcanion Strategol**

Mae blaenoriaethau cyfredol Llywodraeth Cymru ar gyfer Trafnidiaeth Cymru wedi'u pennu yng nghyd-destun Symud Cymru Ymlaen 2016-2021, Ffyniant i Bawb; y strategaeth genedlaethol, y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Bydd yr etholiadau Senedd sydd ar y gweill yn arwain at flaenoriaethau newydd y Llywodraeth.  Fodd bynnag, bydd unrhyw newidiadau i'r cylch gwaith yn cael eu gosod yng

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

nghyd-destun Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth a blaenoriaethau'r Llywodraeth nesaf. Gallai unrhyw gylch gwaith newydd hefyd gwmpasu tymor llawn y Senedd ynghyd â chyllideb ddangosol pum mlynedd i gefnogi cynllunio tymor hwy.

Mae gan Trafnidiaeth Cymru rôl bwysig o ran sbarduno integreiddio ar draws y rhwydwaith trafnidiaeth cyfan. Dyhead Gweinidogion Cymru ar gyfer Trafnidiaeth Cymru yw gwella cysylltedd, ysgogi twf economaidd a thrawsnewid y profiad o drafnidiaeth drwy greu rhwydwaith trafnidiaeth diogel, cynaliadwy, cydnerth ac effeithiol. Bydd Trafnidiaeth Cymru yn darparu cyngor arbenigol dibynadwy drwy arwain, arloesi a chydweithio ac adeiladu partneriaethau sy'n gallu cyflawni dyheadau Gweinidogion Cymru.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o greu rhwydwaith trafnidiaeth gwirioneddol integredig, bydd Trafnidiaeth Cymru yn datblygu ac yn gweithio gyda gweithredwyr i ddarparu cynllun tocynnau cenedlaethol sy'n seiliedig ar gyfrifon a fydd yn cynnwys tocynnau aml-weithredwr, platfform tocynnau 'deallus' integredig aml-ddull, ac a fydd yn cefnogi amrywiaeth o systemau talu heb arian parod.

Er mwyn cynnwys y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, bydd y system tocynnau genedlaethol hefyd yn gallu cefnogi taliadau arian parod o ryw fath.

O dan gylch gwaith Trafnidiaeth Cymru hefyd caiff y dechnoleg talu bresennol mewn meysydd parcio a weithredir gan Trafnidiaeth Cymru neu a weithredir o dan ei brand ei disodli gan systemau sy'n seiliedig ar Adnabod Rhifau Ceir yn Awtomatig (ANPR). Caiff parcio ANPR ei integreiddio â system tocynnau yn seiliedig ar gyfrifon Trafnidiaeth Cymru, felly ni fydd angen i ddefnyddwyr ddefnyddio unrhyw beiriannau tocynnau mewn meysydd parcio.

**Y Rheilffyrdd**

Oherwydd y pandemig COVID-19 presennol, effeithiwyd yn ddifrifol ar y diwydiant rheilffyrdd, ynghyd â dulliau teithio eraill, a gwnaeth Gweinidogion Cymru gyfarwyddo Trafnidiaeth Cymru i sefydlu is-gwmni, Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig, i ddarparu gwasanaethau teithwyr rheilffordd fel y Gweithredwr Pan Fetha Popeth Arall ar gyfer Cymru (WOLR) i gyflawni dyletswydd Gweinidogion Cymru o dan adran 30 o Ddeddf Rheilffyrdd 1993, yn dilyn terfynu contract masnachfraint Cymru a'r Gororau. Dechreuodd Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig weithredu ar 7 Chwefror 2021.

***Gwasanaethau Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau***

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar y cynlluniau ar gyfer datblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol i sicrhau bod gwasanaethau rheilffyrdd yn cael eu darparu mor effeithlon â phosibl, gan barhau i roi diogelwch ac anghenion cwsmeriaid yn gyntaf.

Wrth reoli'r contract o ddydd i ddydd gyda Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig, bydd Trafnidiaeth Cymru, yn unol â Chytundeb Gwasanaethau Gweithredwr Pan Fetha Popeth Arall, a Llythyr Penodi Trafnidiaeth Cymru, yn darparu gwasanaethau gweinyddol i'r Awdurdod mewn cysylltiad â Chytundeb Grant Gweithredwr Pan Fetha Popeth Arall ac yn sicrhau bod:

- Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig yn darparu'r gwasanaethau ymrwymedig a'r rhwymedigaethau ar Rwydwaith Cymru a'r Gororau.

- Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig yn cynnal adolygiad o’r gwaelod i fyny o gostau gweithredu i nodi cyfleoedd ar gyfer arbedion effeithlonrwydd, gan sicrhau nad yw diogelwch yn cael ei beryglu.
- Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig yn ymgysylltu ac yn ymgymryd â gweithgareddau hyrwyddo i ddenu nawdd yn ôl i rwydwaith Cymru a’r Gororau wrth i Gymru adfer o bandemig COVID-19.
- Trafnidiaeth Cymru a Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig yn cydweithio i wneud yn siŵr bod gwelliannau a chyfleoedd newydd i sicrhau gwell cysylltedd rheilffyrdd ar draws rhwydwaith Cymru a’r Gororau yn cael eu sicrhau yn y newidiadau mawr i’r Amserlen ym mis Rhagfyr 2022.

Er gwaethaf effaith pandemig COVID-19 ar niferoedd teithwyr, bydd Trafnidiaeth Cymru yn parhau i ystyried cyfleoedd i gydweithio â gweithredwyr rheilffyrdd a mynediad agored eraill (e.e. Grand Union) gyda’r nod o gyflwyno gwasanaethau newydd yng Nghymru. Bydd angen i unrhyw gynigion gael eu trafod yn fanwl â swyddogion Llywodraeth Cymru cyn datblygu unrhyw achos busnes a/neu argymhellion i’w hystyried gan Weinidogion Cymru.

***Llinellau Craidd y Cymoedd***

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn parhau i ddatblygu ei chapasiti (o fewn y gyllideb sydd ar gael) i sicrhau y caiff y seilwaith ei reoli’n effeithiol ac yn effeithlon, er mwyn sicrhau busnes fel arfer, a chyflawni Prosiect Trawsnewid y Metro ar hyd Llinellau Craidd y Cymoedd. Disgwylir felly i Trafnidiaeth Cymru ddangos yn barhaus ei bod wedi rhoi’r prosesau llywodraethu angenrheidiol ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol er mwyn gweithredu’r ased yn ddiogel a bodloni gofynion rheoliadol y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd (ORR).

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn llunio cynllun pum mlynedd yn nodi’r rhaglen waith a’r cyfnodau y rhagwelir y gallai’r gwaith darfu ar wasanaethau rheilffyrdd ac effeithio ar gwsmeriaid. Caiff y cynllun hwn ei adolygu’n barhaus a rhoddir strategaeth gyfathrebu briodol ar waith i sicrhau y rhoddir digon o rybudd ymlaen llaw i gwsmeriaid, a’u bod yn ymwybodol o’r trefniadau trafnidiaeth amgen a fydd ar gael.

Wrth ddatblygu’r cynllun hwn, bydd Trafnidiaeth Cymru yn sicrhau ei bod wedi sicrhau’r cymorth amlddisgyblaethol gofynnol i ddylunio, caffael a sicrhau’r holl ganiatadau, trwyddedau, lesoedd neu dir sydd eu hangen i gyflawni gwaith cyfalaf Trawsnewid Metro Llinellau Craidd y Cymoedd yn unol â’r cerrig milltir a nodir mewn rhaglen wedi’i diweddaru. Dylai Trafnidiaeth Cymru sicrhau bod pob mesur diogelu addas ar waith i warchod y buddiannau hynny ar ran Gweinidogion Cymru, gan gynnwys, lle y bo’n briodol, ddarparu sicrwydd i Weinidogion Cymru ar ffurf Pridiant Cyfreithiol.  Os bydd trafodaethau masnachol yn methu â sicrhau’r buddiannau angenrheidiol, rhaid i Trafnidiaeth Cymru ymgynghori â Llywodraeth Cymru er mwyn penderfynu sut i wneud ceisiadau priodol i sicrhau unrhyw dir sydd ei angen i gyflawni prosiect trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd, e.e. drwy Orchmynion y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd.

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn datblygu’r rhaglen Gweithredu, Cynnal a Chadw ac Adnewyddu hirdymor ar gyfer Llinellau Craidd y Cymoedd er mwyn pennu gofynion ariannu ar ôl 2024, ac ymgysylltu â’r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd i asesu a dilysu’r cynllun Gweithredu, Cynnal a Chadw ac Adnewyddu yn unol â’r broses CP7.

**Y Metro**

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn parhau i gynllunio a datblygu'r cynlluniau Metro yn y De, y Gogledd a'r Gorllewin, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn cynnwys cynllun cyflawni pum mlynedd wedi'i gostio ynghyd â cherrig milltir allweddol.

Yn y De-ddwyrain yn benodol, bydd Trafnidiaeth Cymru yn sefydlu uned gyflawni, mewn partneriaeth â Chyngor Casnewydd a Network Rail, i baratoi ar gyfer gweithredu unrhyw argymhellion a wneir gan Gomisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru y mae Gweinidogion Cymru yn dewis eu datblygu.

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn cefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu Rhaglen Drafnidiaeth Gyhoeddus Integredig o ran cynllunio'r rhwydwaith a llunio'r manylebau gwasanaeth ar gyfer pob dull o deithio, a datblygiadau arloesol i ddarparu trafnidiaeth integredig (gan gynnwys tacsis).

***Datblygu Cyfnewidfeydd Trafnidiaeth***

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn cefnogi Llywodraeth Cymru wrth weithio gyda phartneriaid lleol i ddatblygu cynlluniau adfywio a datblygiadau sy'n seiliedig ar systemau trafnidiaeth yn yr ardaloedd o amgylch gorsafoedd trenau. Bydd Trafnidiaeth Cymru yn ystyried sut y gallai buddsoddi mewn gwasanaethau a seilwaith rheilffyrdd wella ac integreiddio cysylltiadau trafnidiaeth er mwyn cefnogi'r gwaith o gyfuno gweithgareddau sector cyhoeddus yn ymyl gorsafoedd trenau, codi tai fforddiadwy a masnachol newydd, adfywio canol trefi, manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd diwylliannol a thwristiaeth a datblygu swyddfeydd masnachol ac, i raddau cyfyngedig iawn, lleoedd manwerthu. Wrth wneud hyn, bydd Trafnidiaeth Cymru yn ceisio hyrwyddo'r egwyddorion creu lleoedd a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru.

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ystyried a manteisio i'r eithaf ar amrywiaeth o ddulliau i gofnodi'r gwerth a'r cyfleoedd masnachol ehangach a allai ddeillio o fuddsoddi mewn gwasanaethau a seilwaith trafnidiaeth, y gellir eu hailfuddsoddi o dan egwyddorion 'nid-er-elw' mewn gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, gyda chytundeb penodol y Gweinidog.

***Gorsafoedd newydd ac uwchraddio gorsafoedd***

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn parhau i gyflawni datblygiadau gorsafoedd newydd y cytunwyd arnynt ac uwchraddio gorsafoedd, gan gynnwys y rhai o dan Gronfa Gorsafoedd Newydd a rhaglenni Mynediad i Bawb Llywodraeth y DU ac yn cynnwys o fewn ei gofynion cyllideb y gofynion arian cyfatebol y cytunwyd arnynt. Bydd yn cyflwyno ceisiadau i Lywodraeth y DU yn y dyfodol ar ran Llywodraeth Cymru.

**Bysiau**

Mae pandemig COVID-19 wedi ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad sylfaenol o'r trefniadau ar gyfer cynllunio, ariannu a darparu ar gyfer y diwydiant bysiau yng Nghymru a chan gydweithio hyd yma, mae rhaglen ddiwygio bosibl wedi'i datblygu i fynd i'r afael â'r trefniadau hyn. Yn benodol, bydd Trafnidiaeth Cymru yn:

- parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar y rhaglen diwygio gwasanaeth bysiau a chyfrannu at ddatblygu strategaeth fysiau;
- cynghori Llywodraeth Cymru ar ddarparu cymorth technegol ac arbenigol i ddatblygu a dadansoddi prosiectau o fewn y rhaglen yn unol ag egwyddorion Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG);
- datblygu Dylunio a Safonau ar gyfer y rhwydwaith, gan gynnwys gweithio gyda rhanddeiliaid ar weithredu, treialu a gwerthuso modelau cyflawni arloesol fel Fflecsi;

- cynnal adolygiad o'r fflyd bresennol o fysiau yng Nghymru, gyda'r bwriad o gynghori ar fodelau perchnogaeth a chynllun cyflawni ar gyfer cyrraedd targed dim allyriadau 2028;
- parhau i gefnogi'r gwaith dylunio model gweithredu parhaus, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau;
- gweithio gyda gweithredwyr i adolygu cyllid a phrisiau tocynnau, gan gynnwys prosesau talu a chysoni, tocynnau integredig ar draws dulliau teithio a gweithredwyr, ac adolygu ffrydiau ariannu a grantiau sy'n bodoli eisoes;
- cynghori ar ddatblygu seilwaith, gan gynnwys arosfannau bysiau a chyfnewidfeydd, systemau gwybodaeth a blaenoriaeth bysiau;
- cynnig sut i fynd i'r afael ag ysgogi galw, gan gynnwys ymgyrch sy'n annog dychwelyd i drafnidiaeth gyhoeddus;
- rheoli contract y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau ar ran Llywodraeth Cymru (BES);
- cefnogi'r gwaith o ddatblygu partneriaethau yn unol â'r egwyddorion yn y Cytundeb Partneriaeth Ambarél yng nghontract y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau 2;
- rheoli partneriaid a rhanddeiliaid allanol yn rhagweithiol gan gynnwys awdurdodau lleol, gweithredwyr a theithwyr;
- parhau i reoli a gweinyddu rhaglen adnewyddu tocynnau teithio consesiynol gorfodol (MCF).

***TrawsCymru***
Mae cylch gwaith Trafnidiaeth Cymru yn cynnwys rhoi cymorth gweinyddol i Weinidogion Cymru ar gyfer swyddogaethau y mae Gweinidogion Cymru yn eu harfer mewn perthynas â rhwydwaith TrawsCymru. Bydd Trafnidiaeth Cymru yn rhoi trefniadau digonol ar waith ar gyfer rheoli rhwydwaith TrawsCymru yn barhaus, rheoli'r bwrdd, a gweithio gyda rhanddeiliaid a darparu adroddiadau rheoli misol i Lywodraeth Cymru. Bydd Trafnidiaeth Cymru hefyd yn datblygu opsiynau ar gyfer gwaith ehangu posibl a mwy o integreiddio â rhwydweithiau rheilffyrdd a bysiau.
Bydd Trafnidiaeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i wella'r fflyd o fysiau TrawsCymru a datblygu strategaeth newydd i gyfrannu at dargedau datgarboneiddio Llywodraeth Cymru.

***Trafnidiaeth Seiliedig ar Alw***
Bydd Trafnidiaeth Cymru yn parhau i weithio gyda Chymdeithas Cludiant Cymunedol Llywodraeth Cymru ac amrywiaeth o randdeiliaid, i archwilio a datblygu modelau cyflawni arloesol ledled Cymru i gyfrannu at rwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus mwy effeithlon sy'n gwasanaethu gwahanol gymunedau. Yn benodol, bydd Trafnidiaeth Cymru yn:

- datblygu a rheoli cynlluniau peilot Fflecsi presennol, gan gynnwys y cynllun newydd yng Nghasnewydd;
- cynnal gwerthusiad llawn o'r cynlluniau peilot a gwneud argymhellion ar gyfer dyfodol y model gweithredu hwn;
- sicrhau bod unrhyw newidiadau yn parhau i ategu'r cynllun Bwcabus;

**Teithio Llesol**

Mae Gweinidogion wedi cyhoeddi y byddai Trafnidiaeth Cymru yn rhoi cymorth gweinyddol i Lywodraeth Cymru ar gyfer y Gronfa Teithio Llesol. Bydd y cymorth ychwanegol hwn yn cynnwys gwaith rheoli grantiau'r Gronfa Teithio Llesol, gweinyddu a phrosesu hawliadau o ddydd i ddydd a bydd Trafnidiaeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y prosesau'n gweithio mor ddi-dor â phosibl.

Er mwyn cyflawni hyn, bydd Trafnidiaeth Cymru yn rhoi adnoddau ar waith i weithio gydag awdurdodau lleol ym mhob rhanbarth i ddatblygu eu cynlluniau a'u blaenoriaethau ar gyfer cynlluniau teithio llesol yn eu rhanbarth.

Ar gyfer 2021/22 bydd pob cais yn cael ei gyflwyno drwy'r system sydd newydd ei datblygu, a fwriadwyd er mwyn gwneud y broses ymgeisio ac arfarnu yn fwy effeithlon i awdurdodau lleol. Bydd hefyd yn symleiddio'r gwaith olrhain a monitro parhaus dros oes pob cynllun. Bydd Trafnidiaeth Cymru yn sicrhau effeithiolrwydd y porth ac yn darparu'r holl ganllawiau, cymorth a hyfforddiant i weithredwyr o ran ei ddefnyddio.

Bydd Trafnidiaeth Cymru hefyd yn datblygu fframweithiau monitro a gwerthuso cyson i arfarnu pob cais a chynllun, gan roi cyngor i awdurdodau lleol a'u herio lle bo hynny'n briodol. Bydd yn olrhain effaith y cyllid ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol ac yn adrodd yn rheolaidd i Lywodraeth Cymru er mwyn rhoi gwybod am gynnydd a helpu o ran datblygu cynigion polisi yn y dyfodol.

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn rheoli'r cymorth cyfathrebu a marchnata ar Deithio Llesol ac yn rhoi cyngor a chymorth ar fentrau newid ymddygiad wrth deithio ar lefel leol a chenedlaethol. Bydd Trafnidiaeth Cymru hefyd yn gweithio i ehangu'r gyfran o feiciau cyhoeddus sydd ar gael ledled Cymru, ac yn cefnogi gwaith i gynyddu capasiti a gallu teithio llesol ledled Cymru drwy hyfforddiant a datblygu sgiliau.

**Strategaeth Drafnidiaeth Cymru**

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn cefnogi Llywodraeth Cymru yn y gwaith parhaus o fonitro ac adolygu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru gan gynnwys casglu data ansoddol a meintiol a gwneud gwaith ymchwil, a chyhoeddi adolygiadau bob chwe mis a diweddariadau fel y bo angen.
Bydd Trafnidiaeth Cymru yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu fframwaith monitro a gwerthuso i olrhain cynnydd tuag at yr uchelgeisiau, y blaenoriaethau a'r cynlluniau bach yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ac yn galluogi Llywodraeth Cymru i gyhoeddi adroddiadau blynyddol.

***Y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth***

Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, bydd Trafnidiaeth Cymru yn datblygu'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth yn seiliedig ar Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a Datganiad am y Cronfeydd sydd ar gael dros y cyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau ym mis Ebrill 2022. Bydd Trafnidiaeth Cymru yn datblygu'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru o fewn y cyllid sydd ar gael yn y Datganiad am y Cronfeydd sydd ar gael. Bydd y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth yn cynnwys asesiad effaith integredig (gan gynnwys opsiynau lle y bo angen) a gytunwyd â Llywodraeth Cymru, Gweinidogion a Senedd Cymru. Caiff y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth ei ddatblygu drwy weithio gyda chyrff fel Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, y Comisiynydd Pobl Hŷn, y Comisiynydd Plant a Chomisiynydd y Gymraeg.

Mae'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth yn gynllun cyflawni sy'n canolbwyntio i raddau helaeth ar brosiectau a rhaglenni penodol. Bydd angen asesiadau effaith priodol i'w gefnogi.
Bydd angen ei gysylltu hefyd ag agweddau eraill ar gyflawni Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, gan gynnwys y syniadau cychwynnol ar Gynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, 9

cynllun bach y sectorau a'r gwahanol lwybrau sy'n deillio o'r Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Diben y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth yw:

- Chwarae rhan allweddol yn y gwaith o weithredu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru drwy ddatblygu rhaglenni a phrosiectau sy'n cyflawni'r uchelgeisiau a'r blaenoriaethau yn y Strategaeth.
- Darparu fframwaith buddsoddi pum mlynedd, gan nodi prosiectau a rhaglenni penodol
- Sicrhau bod penderfyniadau am fuddsoddi mewn trafnidiaeth yn strategol ac yn rhagweithiol, ac yn cyfrannu at flaenoriaethau hirdymor fel datgarboneiddio (gan barhau i gadw'r hyblygrwydd o ran ymateb i argyfyngau uniongyrchol).

Bydd y ddogfen hon yn gynllun sy'n diffinio'r meysydd gwariant allweddol ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru dros y pum mlynedd nesaf. Bydd yn adeiladu ar Gynlluniau Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol blaenorol, ond bydd y dull yn cael ei lunio a'i lywio gan Strategaeth Drafnidiaeth newydd Cymru, Llwybr Newydd.
Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, bydd y cynllun wedi'i gwblhau erbyn mis Ebrill 2022.

***Cynllunio Trafnidiaeth Ranbarthol***

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru gyda phartneriaid lleol, gan gynnwys awdurdodau lleol ac awdurdodau trafnidiaeth rhanbarthol i sicrhau bod y gwaith cynllunio o ansawdd uchel ac yn cyd-fynd ag amcanion a rhwymedigaethau cyfreithiol Llywodraeth Cymru. Bydd yn ofynnol i Trafnidiaeth Cymru weinyddu a chynnal Model Trafnidiaeth Rhanbarthol a rhoi cymorth i gydbwyllgorau corfforedig/rhanbarthau fel sy'n ofynnol wrth baratoi cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.

***Darparu trafnidiaeth***

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn chwarae rôl allweddol o ran datblygu a darparu buddsoddiadau seilwaith trafnidiaeth a nodir yn y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth. Wrth wneud hynny, bydd Trafnidiaeth Cymru yn rheoli prosiectau/rhaglenni, yn rhoi cymorth hyrwyddo a chyfathrebu, yn ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn rhoi cymorth dadansoddi, ac yn datblygu cynlluniau (gan gynnwys WelTAG a Grip) (gan gynnwys cefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynlluniau gyda Llywodraeth y DU) a ledled Cymru, gan gynnwys ardaloedd penodol yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys cydweithredu ag awdurdodau lleol, Awdurdodau Trafnidiaeth, cyrff sy'n cynrychioli teithwyr a gweithredwyr a Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o gyflawni manteision ehangach y rhaglen.

**Modelu a Dadansoddi Trafnidiaeth**

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn datblygu ei Huned Dadansoddi ymhellach er mwyn sicrhau y gall ymgymryd â gwaith modelu trafnidiaeth a sicrwydd dadansoddol a gwaith monitro a dadansoddi data ar berfformiad trafnidiaeth yn ogystal ag effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach trafnidiaeth, darparu asesiadau effaith integredig, rhoi cyngor ar dechnegau arolygu a dadansoddi, a gwybodaeth arall er mwyn helpu i ddatblygu polisïau o fewn Llywodraeth Cymru a'n partneriaid.

Bydd yr Uned Dadansoddi yn Trafnidiaeth Cymru yn parhau i reoli'r defnydd o'r tri model trafnidiaeth rhanbarthol a'u datblygu.

Bydd yr uned hefyd yn datblygu, yn rheoli ac yn caffael Arolwg Trafnidiaeth Cenedlaethol i gefnogi gwaith monitro a gwerthuso Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a chryfhau sylfaen dystiolaeth Cymru. Bydd yr Uned Dadansoddi yn cefnogi awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i gasglu data a'u dadansoddi, gan gynnwys arolwg trafnidiaeth cenedlaethol, er mwyn ei gwneud yn bosibl i werthuso'r holl gynlluniau trafnidiaeth a'r ymyriadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn effeithiol.

Bydd yr Uned Dadansoddi yn datblygu 'banc' o dystiolaeth a fydd yn atgyfnerthu ffynonellau data ar drafnidiaeth ledled y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys perfformiad trafnidiaeth a'r materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach sy'n ymwneud â thrafnidiaeth, gan gynnwys cyfranogiad gan grwpiau gwarchodedig. Bydd yn adnodd hygyrch er mwyn helpu i dargedu ymyriadau a datblygu polisïau. Caiff y banc ei gynnal a'i gadw'n rheolaidd i gynnwys y data mwyaf diweddar a ffynonellau data wrth iddynt ddod i'r amlwg.

Bydd yr Uned Dadansoddi hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac arbenigwyr academaidd i nodi bylchau yn y sail dystiolaeth y gellir eu llenwi gan astudiaethau trafnidiaeth a chomisiwn.

## Cyngor Arbenigol a Rheoli Prosiectau

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddibynnu ar Trafnidiaeth Cymru i ddarparu gwasanaethau ymgynghorol proffesiynol parhaus, gan gynnwys datblygu'r achos dros fuddsoddi yn y rhwydwaith trafnidiaeth. Disgwylir y bydd y defnydd o gyflogeion Trafnidiaeth Cymru ac ymgynghorwyr allanol ar draws y gwasanaethau hyn yn parhau i gael ei ailgydbwyso, gyda'r nod o feithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a gallu mewnol Trafnidiaeth Cymru. Rhaid i Trafnidiaeth Cymru ddatblygu'r capasiti a'r gallu mewnol i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu achosion busnes unigol, astudiaethau dichonoldeb, ceisiadau am gyllid buddsoddi, asesiadau effaith integredig, gan gynnwys i Lywodraeth y DU, ac i gefnogi proses WelTAG a gofynion ceisiadau cyllid eraill.

Bydd rhaid llenwi ffurflen Proses Rheoli Prosiect/Ymgynghorydd (CCP) ar gyfer pob prosiect sydd angen y gwasanaethau hyn. Bydd hyn yn cynnwys manyleb lawn o'r gwaith gofynnol ynghyd â chynnig wedi'i gostio'n llawn y mae'n rhaid i uwch swyddog perthnasol ei gymeradwyo yn Trafnidiaeth Cymru ynghyd â deiliad y gyllideb ddirprwyedig yn Llywodraeth Cymru. Bydd hyn wedyn yn cael ei awdurdodi gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Seilwaith Economaidd cyn i'r gwaith ddechrau.

Mae nifer o brosiectau wedi'u nodi ar gyfer 2021-22 y bydd Trafnidiaeth Cymru yn eu cyflawni ar gyfer Llywodraeth Cymru. Fe'u hamlinellir isod, ond gellid ychwanegu at y rhain yn ystod y flwyddyn. Mae'r prosiectau cyfredol yn cynnwys:

***Tacsis***

Datblygu Polisi.

Gan weithio gydag arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru, dylai Trafnidiaeth Cymru gynnal ymchwil sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid i'w gwneud yn bosibl datblygu sylfaen dystiolaeth gynhwysfawr i gefnogi cynigion polisi ar gyfer deddfwriaeth newydd.

Fflyd Werdd

Gan weithio gydag arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, y sector tacsis a rhanddeiliaid allweddol eraill, dylai Trafnidiaeth Cymru ddatblygu cynlluniau i helpu i ddatblygu cynigion i gefnogi'r cynlluniau ar gyfer fflyd o dacsis gwyrdd.

***Prosiectau 20 mya a Pharcio ar y Palmant***

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth ar gyfer prosiectau 20mya a pharcio ar y palmant.

### *Datgarboneiddio ac Ansawdd Aer*

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn datblygu ac yn cyhoeddi cynllun cyraeddadwy wedi'i gostio, erbyn diwedd mis Mawrth 2022, i sicrhau allyriadau carbon sero-net ar gyfer holl weithrediadau uniongyrchol a gweithrediadau trafnidiaeth Trafnidiaeth Cymru, wedi'u cefnogi gan gyllid a weinyddir gan Trafnidiaeth Cymru ar ran Gweinidogion Cymru (e.e. bysiau, trenau, cyfleusterau a gweithrediadau swyddfa gefn) erbyn 2030. Bydd Trafnidiaeth Cymru yn dechrau gweithio ar unwaith i roi'r cynllun ar waith, gan nodi ymrwymiad presennol y Llywodraeth i fflyd o Fysiau a Thacsis di-allyriad erbyn 2028. Sicrhau bod holl weithrediadau Trafnidiaeth Cymru a gyflawnir ar ran Gweinidogion Cymru wedi'u dylunio a'u darparu ar sail y data diweddaraf ar risgiau ac effeithiau newid hinsawdd a bod cynlluniau cadarn ar gyfer addasu i newid hinsawdd ar waith. Bydd Trafnidiaeth Cymru yn cyhoeddi cynllun cyflawni clir, wedi'i gostio, yn cynnwys manylion camau gweithredu penodol, ffynonellau cyllid, targedau manwl a threfniadau monitro er mwyn cyrraedd ein targedau datgarboneiddio.

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn adolygu ac yn asesu effeithiau allyriadau llygryddion i'r aer ar gyfer pob gweithrediad a gweithrediadau trafnidiaeth a gefnogir gan gyllid a weinyddir gan Trafnidiaeth Cymru ar ran Gweinidogion Cymru, gan sicrhau nad yw gweithrediadau presennol na newydd yn achosi nac yn cyfrannu'n sylweddol at derfynau o ran ansawdd aer yr amgylchedd (fel y nodir yng Nghyfarwyddeb yr UE ar Ansawdd Aer yr Amgylchedd (2008/50/EC) a Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010). Bydd Trafnidiaeth Cymru yn cyhoeddi ac yn diweddaru'r adolygiad o allyriadau llygryddion i'r aer ar gyfer pob gweithrediad a gweithrediadau trafnidiaeth bob blwyddyn. Lle bydd gweithrediadau presennol yn cyfrannu at feysydd gormodiant, bydd yn rhaid defnyddio technoleg allyriadau isel iawn, ynghyd â sicrhau cydweithrediad rhagweithiol rhwng Trafnidiaeth Cymru â'r cyrff hynny sy'n gyfrifol am reoli ansawdd yr aer er mwyn datblygu camau adfer a'u rhoi ar waith.

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn sicrhau bod cynlluniau i gyflawni allyriadau carbon sero-net ar gyfer holl weithrediadau Trafnidiaeth Cymru yn gyson â chynlluniau i leihau allyriadau ansawdd aer ac effeithiau cysylltiedig, ac yn cefnogi'r cynlluniau hynny. Caiff hyn ei arddangos drwy ystyriaeth feintiol o ansawdd aer ynghyd â nwyon tŷ gwydr yn y cynlluniau.

### *Gwefru Cerbydau Trydan*

I gefnogi'r prosiect datgarboneiddio, bydd Trafnidiaeth Cymru yn cynorthwyo arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan a'r Cynllun Gweithredu, yn nodi llwybrau i gyflawni targedau 2028 ar gyfer fflyd o fysiau / tacsis / cerbydau hurio preifat allyriadau isel iawn, yn cyflwyno seilwaith gwefru cerbydau trydan ac yn rheoli'r Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn.

## Cynllunio Busnes

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn datblygu cynllun busnes blynyddol sy'n nodi sut y bydd yn cyflawni ei amcanion. Wrth ddatblygu ei gynllun busnes, bydd Trafnidiaeth Cymru yn nodi amcanion busnes clir ynghyd â chyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol i'w monitro, ac yn adrodd arnynt yn rheolaidd drwy gydol y cyfnod. Bydd y dangosyddion perfformiad allweddol yn amodol ar gymeradwyaeth weinidogol a bydd angen iddynt gwmpasu tri maes penodol:

- Deilliannau: cyflawniadau strategol yw'r rhain sy'n cyd-fynd â'r cynllun corfforaethol ac maent yn ôl eu natur yn rhai tymor canolig i hirdymor
- Allbynnau: mewn perthynas â Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig a manylion penodol yn y llythyr cylch gwaith hwn
- Gweithredol: bydd angen i gynllun corfforaethol ddangos i Lywodraeth Cymru sut mae Trafnidiaeth Cymru yn rhedeg yn effeithlon ac yn effeithiol.

Bydd cynllun ariannol yn cyd-fynd â'r cynllun busnes sy'n dangos sut y bydd Trafnidiaeth Cymru yn cyflawni'r cylch gwaith ac yn cael ei broffilio dros gyfnod o 12 mis. Yn ogystal, bydd Trafnidiaeth Cymru yn darparu cynllun adnoddau ar gyfer Adnoddau Dynol i arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru ynghyd â siart sefydliadol o'r staff, gan gynnwys y costau gweithredol sydd eu hangen i gyflawni amcanion y cylch gwaith hwn. Bydd angen iddo amlinellu'r ffordd y bydd y sefydliad yn datblygu ei staff i fodloni gofynion yr amcanion strategol a'r ffordd y bydd yn meithrin capasiti a gallu i fodloni'r amcanion strategol a nodir uchod.

Fel y nodir isod, bydd y manylion ariannu'n cael eu cadarnhau ar ôl i'ch cynllun busnes gael ei gymeradwyo a bydd ar gyfer cyfnod y cylch gwaith. Felly, bydd y cynllun busnes yn disgrifio'n glir y gweithgarwch a gyflawnir gan Trafnidiaeth Cymru yn ystod y cyfnod hwn. Cyn y cytunir yn derfynol ar y cyllid ar gyfer y cynllun busnes, rhaid i Trafnidiaeth Cymru, mewn cydweithrediad â'r arweinydd polisi perthnasol yn Llywodraeth Cymru, sicrhau bod yr holl weithgarwch arfaethedig sydd wedi'i nodi yn y cynllun busnes wedi'i gytuno a bod y cyllid ar gael.

Wrth ddatblygu ei Chynllun Corfforaethol a'i Chynllun Busnes, bydd Trafnidiaeth Cymru yn adlewyrchu'r Amcanion Strategol a nodir uchod ac a adlewyrchir yn y llythyr hwn, ynghyd â gweithio gyda Chomisiwn Dylunio Cymru i wella'r amgylchedd adeiledig ac adeiladu ar unrhyw argymhellion perthnasol gan Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru.

Bydd y Cynllun Busnes yn nodi'r ffordd y bydd Trafnidiaeth Cymru yn gweithio gyda Banc Datblygu Cymru i ddatblygu atebion cyllido arloesol. Bydd hefyd yn nodi sut y bydd gwaith Trafnidiaeth Cymru yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer Cadwyn Gyflenwi Cymru.

Er mwyn cynorthwyo gyda gwaith cynllunio ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022/23 bydd yn ofynnol i chi weithio gyda chydweithwyr Seilwaith Economaidd o fis Mehefin 2021 i ddechrau nodi'r gofynion ariannu ar gyfer gweithrediadau Trafnidiaeth Cymru yn y dyfodol.

**Brand Trafnidiaeth Cymru**

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn parhau i ymdrechu i'r eithaf i gynyddu ymwybyddiaeth o frand Trafnidiaeth Cymru a gwella canfyddiadau teithwyr, y cyhoedd, ei rhanddeiliaid a chadwyni cyflenwi. Caiff y brand ei reoli'n llymach, a bydd Trafnidiaeth Cymru yn defnyddio'r brand fel mecanwaith ar gyfer ysgogi arloesedd ar draws y busnes, o ragoriaeth mewn marchnata a chyfathrebu, ansawdd ym mhob maes gwasanaeth i gwsmeriaid, i syniadau prosiect beiddgar ac uchelgeisiol hirdymor sy'n sefydlu'r brand fel rhan o wead bywyd Cymru.

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid lleol a Llywodraeth Cymru i ddatblygu brandiau lleol ar gyfer y Metros yn y Gogledd-ddwyrain, y De a'r Gorllewin. At hynny, bydd Trafnidiaeth Cymru hefyd yn mynd ati'n rhagweithiol i chwilio am gyfleoedd i ryngweithio ag awdurdodau lleol, Aelodau'r Senedd, y cyhoedd a'r cyfryngau gyda'r nod o sicrhau bod rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn ymwybodol bod Trafnidiaeth Cymru yn gwmni sy'n eiddo llwyr i Weinidogion Cymru ac yn gyfrifol am benderfyniadau gweithredol, o fewn

fframwaith llywodraethu cadarn sydd wedi'i hen sefydlu, sy'n gysylltiedig â chyflawni cynllun busnes Trafnidiaeth Cymru.

**Cefnogi'r Gymraeg a diwylliant Cymru**

Yn ogystal â bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol o dan Safonau'r Gymraeg Gweinidogion Cymru, bydd Trafnidiaeth Cymru yn datblygu'r rôl y mae'n ei chwarae wrth gefnogi'r Gymraeg a diwylliant Cymru, gan gydnabod amrywiaeth rhanbarthau Cymru, anghenion cymunedau a buddiannau gwahanol grwpiau o deithwyr.

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn datblygu cynllun i'w gyflwyno i arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru o fewn 6 mis, sy'n nodi uchelgeisiau ychwanegol o ran y Gymraeg y gellir eu cyflawni ynghyd â rhaglen ar gyfer gwneud hynny.

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn ymgysylltu â Croeso Cymru i sicrhau bod datblygiadau seilwaith a strategol newydd yn ystyried ac yn gwella'r profiad ymwelwyr ehangach yng Nghymru, yn unol â blaenoriaethau Croeso i Gymru - Blaenoriaethau i'r Economi Ymwelwyr 2020-25.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Trafnidiaeth Cymru, fel cwmni sy'n eiddo llwyr i'r llywodraeth, weithio yn unol â'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Bydd yn ofynnol i Trafnidiaeth Cymru adrodd i Lywodraeth Cymru ar y ffordd y mae'n defnyddio'r pum ffordd o weithio, sut y mae'n cyfrannu at gyflawni'r saith nod llesiant a sut y bydd ei dull gweithredu'n datblygu bob blwyddyn.

**Cyllid**

Bydd cadarnhad o'r cyllid ar gyfer y gweithgarwch yn ystod cyfnod y cylch gwaith yn cael ei nodi mewn llythyr cadarnhau cyllid blynyddol yn dilyn cymeradwyo cynllun busnes Trafnidiaeth Cymru.

Cyn 31 Mawrth 2022 bydd Trafnidiaeth Cymru yn datblygu cynllun ar gyfer creu digon o arbedion drwy effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gweithredol i dalu costau ei weithrediad ei hun.

**Trefniadau Goruchwylio**


Bydd eich Tîm Partneriaeth yn cysylltu â Trafnidiaeth Cymru yn fuan i drefnu cyfarfod i drafod trefniadau goruchwylio ac adrodd ar gyfer cyfnod y cylch gwaith hwn. Mae dull goruchwylio Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar risg, ac mae'n gweithio'n gydweithredol gyda chwmnïau dan berchnogaeth lwyr a chyrff cyhoeddus i nodi'r lefel briodol o oruchwyliaeth a monitro ar gyfer y sefydliad unigol.

Bydd y Tîm Partneriaeth yn cynnal asesiadau rheolaidd o'r fframwaith sicrwydd risg a bydd hefyd yn ystyried, ar y cyd â'r Uned Cyrff Cyhoeddus, yn flynyddol yr angen am adolygiad wedi'i deilwra o'r sefydliad.

Dylid ystyried y llythyr hwn ar y cyd â'r ddogfen Fframwaith.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi i gyflawni'r rhaglen gyffrous hon.

Yn gywir



**Ken Skates AS/MS**
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
Minister for Economy, Transport and North Wales

LEAVE BLANK TO ALLOW FOR PRINTING

| | | |
|---|---|---|
| **To:** | 1.<br>2. Ken Skates MS | Ref<br>CC:<br>Andrew Johnson<br>Andrew Mathias<br>E&T Government Business |
| **From:** | E&T Government Business<br>Ext | |
| **Date:** | XX Month 2020 | |

**[TYPE THE SUBJECT OF YOUR MINUTE HERE]**

[Type the text of your minute here]